Hawdd ei Ddeall

# Goruchwylio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru

## Rheolau ar gyfer Comisiynwyr

## Beth mae pobl wedi ei ddweud



Medi 2025

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o adroddiad gan Lywodraeth Cymru. Rydych chi’n gallu darllen y gwreiddiol yma: www.llyw.cymru/cod-ymarfer-ar-ansawdd-pryderon-chau-gwasanaethau-gofal-chymorth




Efallai y byddwch chi angen help i’w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod eich helpu chi.

Lle mae’r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru/cod-ymarfer-ar-ansawdd-pryderon-chau-gwasanaethau-gofal-chymorth

**Ebost:** TimCartrefiGofal@llyw.cymru

Mae’r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosybols 403527247

# Cynnwys


**Geiriau a termau pwysig ........ 4**

**Am y ddogfen yma ........ 7**

**Beth mae pobl wedi ei ddweud ........ 9**

Gwiriadau ansawdd ........ 9

Delio â phryderon ........ 16

Datgomisiynu ........ 21

Beth i'w wneud os ydy gwasanaeth yn cau ........ 28

Yr iaith Gymraeg ........ 32

Unrhyw beth arall ........ 34

**Beth sy'n digwydd nesaf ........ 39**

**Mwy o wybodaeth ........ 40**

# Geiriau a termau pwysig



**Gwasanaethau gofal a chymorth rheoledig**



Mae hyn yn meddwl:

- Cartrefi gofal i oedolion
- Cartrefi gofal plant
- Gwasanaethau cymorth cartref



- Gwasanaethau canolfan teuluoedd preswyl
- Gwasanaethau mabwysiadu a maethu
- Gwasanaethau eiriolaeth



- Llety diogel
- Gwasanaethau lleoli oedolion
- Gwasanaeth preswyl ysgol arbennig



Rydyn ni'n eu galw'n **wasanaethau** yn y ddogfen yma. Darllenwch y Cod drafft Hawdd ei Ddeall am ragor o wybodaeth.

## Rheoledig




Mae **rheoledig** yn meddwl rheolau sydd yn cael eu rheoli.



Mae gwasanaethau rheoledig yng Nghymru wedi'u cofrestru gydag **Arolygiaeth Gofal Cymru**.

## Comisiynwyr



Mae awdurdodau lleol (cynghorau lleol) yn darparu ac yn **comisiynu** gwasanaethau.



Mae **comisiynu** yn meddwl cynllunio, trefnu a thalu am wasanaethau i ateb anghenion pobl leol.



Mae'r sefydliadau a'r bobl sy'n gyfrifol am **gomisiynu** yn cael eu galw yn **Gomisiynwyr**.

Mae byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG hefyd yn **comisiynu** gwasanaethau.



Mae awdurdodau lleol yn cydweithio â byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG i **gomisiynu** gwasanaethau.



Yn y ddogfen yma fe fyddwn ni'n galw awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn **Gomisiynwyr**.

## Datgomisiynu




**Datgomisiynu** ydy pan fydd **Comisiynydd** yn dod â chontract i ben gyda darparwr gwasanaeth.

# Am y ddogfen yma




Fe wnaethon ni ysgrifennu rheolau a chanllawiau newydd ar gyfer y **Comisiynwyr**.




Mae hyn yn cael ei alw yn **Cod Ymarfer drafft**.



Mae'n esbonio sut y dylai **Comisiynwyr**:


- Edrych ar ansawdd y gwasanaethau.
- Delio â phryderon.
- **Datgomisiynu** gwasanaethau.
- Rhoi cynlluniau ar waith os bydd gwasanaeth yn cau.



Fe wnaethon ni ofyn i bobl beth maen nhw'n ei feddwl am y **Cod Ymarfer drafft**. Rydyn ni'n ei alw'n **Cod drafft** yn fyr.



Rydych chi'n gallu darllen am hyn ar ein gwefan: [www.llyw.cymru/cod-ymarfer-ar-ansawdd-pryderon-chau-gwasanaethau-gofal-chymorth](www.llyw.cymru/cod-ymarfer-ar-ansawdd-pryderon-chau-gwasanaethau-gofal-chymorth)




Mae'r ddogfen yma yn adroddiad am beth mae pobl wedi ei ddweud.



Fe gawsom ni 41 o ymatebion:

- Roedd 3 ymateb gan unigolion.
- Roedd 35 o ymatebion gan sefydliadau.
- Doedd rhai ddim yn dweud pwy oedden nhw.

# Beth mae pobl wedi ei ddweud

## Gwiriadau ansawdd



### Cwestiwn un (1)

Fe wnaethon ni  ofyn oedd pobl yn cytuno â beth y dylai **Comisiynwyr** ei wneud i edrych ar ansawdd gwasanaethau

## Beth oedd pobl yn ei hoffi am yr adran yma:




- ✓ Mae'n dda bod y Cod drafft yn canolbwyntio ar ansawdd.
- ✓ Fe fydd yn helpu i wella gwasanaethau drwy weithio gyda'i gilydd.
- ✓ Mae'n ei gwneud hi'n glir pwy sy'n gyfrifol am wneud beth.
- ✓ Fe fydd yn helpu i wneud yn siŵr bod pethau'n cael eu gwneud yn yr un ffordd ar draws Cymru.
- ✓ Fe fydd yn helpu i stopio gwahanol bobl rhag gwneud yr un gwaith fwy nag unwaith.

## Fe wnaeth pobl ddweud:



- **Fe ddylen ni newid rhai geiriau o dylai i rhaid. Er mwyn ei gwneud yn gliriach beth mae'n rhaid i Gomisiynwyr ei wneud.**



**Ein hymateb**: Fe wnaethon ni edrych ar bob awgrym yn ofalus. Fe wnaethon ni gytuno â rhai a gwneud newidiadau.

Rydyn ni wedi gwneud dyletswyddau **Comisiynwyr** yn gliriach. Er enghraifft, rydyn ni wedi ychwanegu bod rhaid i unrhyw gamau gweithredu i wella gwasanaethau fod yn ysgrifenedig.



- **Mae'r Cod drafft yn gallu gwneud gwaith ychwanegol i wasanaethau. Ac fe ddylen ni fod yn ofalus gyda hyn.**



**Ein hymateb**: Mae'r Cod drafft yn cysylltu â rheolau a chyfreithiau sydd gennym yn barod.

Fe fydd rhywfaint o waith ychwanegol ar y dechrau tra bod y **Comisiynwyr** yn dod i arfer â'r Cod newydd. Ond yn y tymor hir, fe fydd y Cod newydd yn gwneud pethau'n haws, yn gliriach a'r un peth ar draws Cymru.




- **Mae diogelu yn bwysig.**

  Mae hyn yn meddwl cadw pobl yn ddiogel rhag niwed.




- **Fe wnaeth pobl ddweud y dylai'r Cod drafft gysylltu â rheolau ar gyfer cadw pobl yn ddiogel. Ac fe ddylen nhw siarad mwy am eiriolaeth.**



Eiriolaeth ydy pan fydd person yn cael cefnogaeth i rannu eu barn a'u dymuniadau, a gwneud yn siŵr bod eu hawliau'n cael eu bodloni.




**Ein hymateb:** Rydyn ni wedi diweddaru'r Cod drafft i'w gysylltu â rheolau diogelu:

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- a safonau hyfforddi Gofal Cymdeithasol Cymru




Rydyn ni wedi ychwanegu paragraff am ddyletswyddau diogelu. Rydyn ni'n credu bod digon o wybodaeth am eiriolaeth yn y Cod drafft.

## Adborth arall:



- **Gwneud hi'n gliriach pryd mae'n rhaid i Gomisiynwyr rannu pryderon am wasanaethau.**

  **Ein hymateb:** Mae'r Cod drafft bellach yn dweud bod rhaid i hyn ddigwydd pan fydd camau gwelliant yn cael eu gosod, neu pan fydd cynllun gweithredu gwelliant yn cael ei wneud.



- **Defnyddio system ar-lein i wneud adrodd yn haws.**

  **Ein hymateb:** Rydyn ni'n edrych ar ffyrdd newydd o edrych ar beth sy'n digwydd mewn gwasanaethau. Mae hyn yn gallu cynnwys offer ar-lein ar gyfer adrodd a rhannu gwybodaeth.




- **Gwneud hi'n haws rhannu gwybodaeth.**

  **Ein hymateb:** Mae'r Cod drafft yn dweud y dylai Comisiynwyr a phartneriaid weithio gyda'i gilydd. Fe ddylen nhw ddefnyddio rheolau a chanllawiau presennol i helpu gyda hyn.

- **Cynnwys amodau gwaith staff mewn gwiriadau ansawdd**



**Ein hymateb:** Rhaid i **gomisiynwyr** ddilyn y rheolau yn y Fframwaith Cenedlaethol. Mae hyn yn dweud bod rhaid i **gomisiynwyr** feddwl am amodau gwaith.


- **Cael canllawiau cliriach ar gyfer gweithio gyda phobl i wella ansawdd.**



**Ein hymateb**: Rhaid i **gomisiynwyr** ddilyn y Fframwaith Cenedlaethol i wneud i hyn ddigwydd.



- **Doedd y pecyn cymorth ddim wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad, felly dydyn ni ddim yn gallu gwneud sylwadau arno.** Mae pecyn cymorth yn set o ddogfennau, templedi ac enghreifftiau arfer da i helpu pobl i ddilyn y Cod drafft.




**Ein hymateb:** Wnaethon ni ddim ei gynnwys oherwydd ei fod yn ganllaw.Does dim rhaid i **gomisiynwyr** ei ddefnyddio.



- **Cynnwys geiriau penodol am wasanaethau plant yn y Cod.**



**Ein hymateb:** Mae'r Cod drafft yn cwmpasu'r holl wasanaethau i oedolion a phlant. Fe ddylai gwiriadau ansawdd gynnwys diogelwch a lles pawb, beth bynnag ydy eu hoedran.



- **Enwi sefydliadau sy'n gyfrifol am reolau a chanllawiau comisiynu eraill.**

**Ein hymateb:** Mae'r Cod drafft yn dweud 'unrhyw dimau **comisiynu**'. Mae'r sefydliadau yma wedi'u cynnwys yn hynny. Ond rydyn ni wedi diweddaru ein diffiniad o **Gomisiynwyr** i wneud hyn yn gliriach.



- **Dangos bod staff gofal cymdeithasol yn rhan bwysig o ddarparu gwasanaethau o safon. Fe ddylai hyn gael ei gynnwys yn y darlun Cylch Dysgu Ansawdd.**

**Ein hymateb:** Rydyn ni wedi diweddaru'r darlun. Mae hyn hefyd yn cael ei ddangos mewn cyfreithiau, rheolau a chanllawiau eraill.



- **Cynnwys proses apelio ar gyfer darparwyr gwasanaeth.** Mae hyn yn ffordd i wasanaethau ofyn yn ffurfiol am edrych ar, a newid penderfyniadau.

  **Ein hymateb:** Rydyn ni wedi diweddaru'r Cod drafft i gynnwys gwybodaeth am apeliadau.



- **Cynnwys camau ychwanegol ar gyfer edrych ar sut mae sefydliadau'n cael eu sefydlu a'u rhedeg yn y siart llif.** Mae siart llif yn ddarlun syml sy'n dangos camau mewn proses. Fel arfer mae'n defnyddio blychau ar gyfer gweithredoedd a saethau i ddangos beth sy'n digwydd nesaf.

  **Ein hymateb:** Mae gwiriadau eisoes yn y siart llif. Rydyn ni'n meddwl bod hyn yn ddigon.



- **Canolbwyntio mwy ar brofiadau a barn pobl wrth edrych ar ansawdd y gwasanaethau.**



**Ein hymateb:** Mae'r Cod drafft yn dweud bod rhaid i **Gomisiynwyr** gynnwys profiadau a barn pobl. Mae'n rhoi enghreifftiau o'r math yma o adborth.  Rydyn ni wedi ychwanegu at y Cod drafft i wneud hyn yn gliriach.


# Delio â phryderon



## Cwestiwn 2

Fe wnaethon ni ofyn oedd pobl yn cytuno â sut mae'n rhaid i **Gomisiynwyr** ddelio â phryderon.

## Beth oedd pobl yn ei hoffi am yr adran yma:




- ✓ Camau a ffyrdd clir ar gyfer delio â phryderon.
- ✓ Ffyrdd clir o stopio pryderon rhag gwaethygu.




- ✓ Y gallu i ddefnyddio prosesau lleol.
- ✓ Gallu delio â phryderon mewn ffordd unigol.



- ✓ Gweithio gyda'n gilydd a rhannu gwybodaeth.
- ✓ Cadw pobl yn ddiogel a gwella gwasanaethau.

## Fe wnaeth pobl ddweud:




- **Mae rhai pobl eisiau i gamau a chamau manwl gael eu cymryd i ddelio â phryderon. Gwneud yn siŵr bod pethau’n cael eu gwneud yn yr un ffordd ar draws Cymru.**



**Ein hymateb:** Mae’r Cod drafft yn nodi beth ddylai gael ei wneud ar draws Cymru. Fe fydd hyn yn gwneud yn siŵr bod pethau’n cael eu gwneud mewn ffyrdd tebyg. Dydy e ddim yn mynd i fanylion ar brosesau.



Mae hyn er mwyn i **Gomisiynwyr** allu meddwl am:

- prosesau lleol
- a’r ffordd orau o ddelio â phob sefyllfa.




- **Roedd rhai pobl eisiau esboniad cliriach o bethau fel digon o dystiolaeth, rheoli ansawdd, a risg ddifrifol.**




**Ein hymateb:** Rydyn ni wedi diweddaru’r Cod drafft i wneud pethau’n gliriach.




Mae'r Cod drafft yn dweud y dylai **Comisiynwyr** weithio gyda darparwyr gwasanaeth i ysgrifennu cynllun ar gyfer delio â phryderon.




Mae'n cael ei alw yn gynllun gweithredu pryderon cynyddol. Y darparwr gwasanaeth fydd yn berchen ar y cynllun.





- **Roedd gan bobl farn wahanol am pwy ddylai fod yn berchen ar y cynllun. A pha rôl sydd gan Gomisiynwyr wrth ddelio â phryderon.**




**Ein hymateb:** Fe wnaethon ni newid yr enw o **gynllun gweithredu pryderon cynyddol** i **gynllun gweithredu gwelliant**.




Mae'r cynllun yn gallu cynnwys camau gan **Gomisiynwyr** ac eraill os oes angen. Rydyn ni'n credu fod hyn yn helpu i esbonio nod y cynllun yn well.




- **Roedd pobl yn cytuno â nod y rheolau am wasanaethau sy'n derbyn lleoliadau newydd pan fydd yna bryderon.**



Lleoliad newydd ydy pan fydd gwasanaethau yn derbyn pobl newydd.



**Ond roedd pobl yn poeni nad  oedd y Comisiynwyr yn gallu gofyn i wasanaethau roi'r gorau i gymryd lleoliadau newydd am gyfnod penodol.**



**Mae hyn yn gallu cyfyngu ar eu gallu i ddelio â materion diogelwch.**



**Ein hymateb:** Rydyn ni wedi diweddaru'r Cod i'w gwneud yn gliriach beth mae **Comisiynwyr** yn gallu ei wneud. Yn enwedig pan fydd angen iddyn nhw gadw pobl yn ddiogel.




- **Fe wnaeth rhai pobl  ddweud nad ydy'r Cod drafft yn gwneud rôl Arolygiaeth Gofal Cymru yn glir.**




**Ein hymateb:** Mae gan y Cod drafft adran sy'n esbonio rôl Arolygiaeth Gofal Cymru.




Mae'r Cod drafft yn **glir nad ydy** cynlluniau gweithredu gwelliant yn cymryd lle'r camau gweithredu gan Arolygiaeth Gofal Cymru.


# Datgomisiynu




## Cwestiwn 3

Fe wnaethon ni ofyn oedd pobl yn cytuno â sut mae gwasanaethau yn cael eu **datgomisiynu**.

## Beth oedd pobl yn ei hoffi am yr adran yma:




✓ Mae'n rhoi ffordd glir o gadw gwasanaethau i redeg.



✓ Mae'n dda ei fod yn siarad am anghenion staff, hyd yn oed pan nad ydy **Comisiynwyr** bob amser yn gyfrifol am staff.

✓ Mae **comisiynwyr** yn gallu defnyddio prosesau lleol.

## Fe wnaeth pobl ddweud:



- **Mae'r ffocws ar les pobl yn dda. Ond fe fyddai gwasanaethau xydd yn poeni yn dal i feddwl am arian o flaen anghenion pobl.**



- **Fe wnaeth eraill ddweud bod gan y Cod reolau synhwyrol sy'n meddwl am ansawdd, arian ac anghenion pobl.**



- **Roedd pobl yn teimlo'n gryf y dylai'r gofal barhau heb fylchau. Fe ddylai pobl symud i wasanaeth arall yn esmwyth.**



**Ein hymateb:** Os ydy gwasanaeth yn cael ei **ddadgomisiynu**, rhaid i **gomisiynwyr** wneud yn siŵr bod pobl yn parhau i gael y gofal maen nhw ei angen.



Rydyn ni wedi ychwanegu bod yn rhaid i **Gomisiynwyr** feddwl am anghenion, dymuniadau a safbwyntiau pobl.



- **Fe wnaeth rhai pobl ddweud y  dylai fod mwy o fanylion am reolau ar gyfer:**
  - **symud i wasanaeth arall**
  - **ac amserlenni.**



**Ein hymateb:** Mae'r Cod a'r pecyn cymorth yn darparu gwybodaeth i helpu gyda phrosesau lleol.




- **Fe wnaeth1 person ddweud y dylai fod canllawiau pellach ar gyfer cefnogi plant wrth symud gwasanaethau.**




**Ein hymateb:** Mae gwasanaethau **datgomisiynu** yn dibynnu ar y sefyllfa.




Mae'r Cod drafft yn cwmpasu'r holl wasanaethau i oedolion a phlant yn ôl y gyfraith. Mae'n rhaid iddo gadw pobl yn ddiogel ac yn iach beth bynnag ydy eu hoedran.



- **Roedd pobl eisiau i ystyr datgomisiynu fod yn gliriach.**



**Ein hymateb:** Fe wnaethon ni ddiweddaru’r diffiniad o **ddatgomisiynu**.

Mae’n dangos nawr nad  ydy **datgomisiynu** bob amser yn meddwl cau gwasanaeth. Mae hefyd yn esbonio sut mae’n berthnasol i wahanol wasanaethau.




- **Roedd pobl eisiau mwy o resymau dros ddatgomisiynu gwasanaeth i fod yn gliriach.**



**Ein hymateb:** Dydy gwasanaethau ddim bob amser yn cael eu **datgomisiynu** oherwydd ansawdd.



Rydyn ni wedi ychwanegu manylion am wasanaethau sy’n cael eu **datgomisiynu** oherwydd penderfyniadau sydd wedi eu seilio ar bethau fel:

- Arian.
- Cynllunio.
- Syniadau a gwasanaethau newydd mewn mannau eraill.



- **Fe wnaeth pobl ddweud ei bod yn bwysig siarad â phobl, teuluoedd a gofalwyr di-dâl yn ystod datgomisiynu.**



**Ein hymateb:** Fe wnaethon ni ddiweddaru'r Cod drafft fel bod rhaid i **Gomisiynwyr** siarad â phobl yn ystod y **datgomisiynu**.




Rhaid i **gomisiynwyr** feddwl am hawliau a safbwyntiau pobl wrth wneud penderfyniadau.



Rydyn ni hefyd wedi ei gwneud yn gliriach beth mae'n rhaid i **Gomisiynwyr** ei wneud ar gyfer staff mewn gwasanaeth wedi'i **ddatgomisiynu**. Rhaid iddyn nhw ddilyn y rheolau mewn Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).




Fe wnaeth rhai pobl awgrymu y dylai'r Cod siarad am y rheolau newydd ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau. Ond mae gennym ni reolau sy'n dweud bod rhaid i **Gomisiynwyr** ddilyn cyfreithiau cyfredol fel hyn yn barod.

## Adborth arall:



- **Fe ddylai ystyr 'corff comisiynu allanol' gael ei egluro.**



**Ein hymateb:** Mae'r gair yn cael ei newid nawr i 'cyrff **comisiynu** eraill'. Fe fyddai hyn yn cynnwys **Comisiynwyr** y tu allan i'r ardal wasanaeth.





- **Fe ddylai fod siart llif syml sy'n dangos y camau ar gyfer datgomisiynu gwasanaeth.**

**Ein hymateb:** Fe wnaethon ni edrych arno a meddwl ei fod yn cwmpasu'r holl gamau **datgomisiynu** ar 1 dudalen.




- **Fe ddylai fod rheolau clir ar gyllidebau cyfunol a chyfrifoldebau sydd yn cael eu rhannu.**

**Cyllideb gyfunol** ydy pan fydd 2 neu fwy o sefydliadau yn cyfuno eu harian i ariannu gwasanaethau gyda'i gilydd.




- **Ein hymateb:** Mae'r Cod drafft yn rhoi rhywfaint o ganllawiau i **Gomisiynwyr**. Ond fe ddylen nhw hefyd ddilyn canllawiau a rheolau cysylltiedig eraill.




- **Sut fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod y Cod yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd iawn.**




**Ein hymateb:** Fe fydd **comisiynwyr** yn cael cymorth a hyfforddiant i ddefnyddio'r Cod.



- **Sut fydd Comisiynwyr yn cael gwybod am faterion neu newidiadau mewn meysydd eraill.**

**Ein hymateb:** Fe fydd y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn rhoi gwybod i'r **Comisiynwyr** am y broses.




- **Oes rhaid i ddarparwyr gwasanaeth roi gwybod i'r Comisiynwyr wrth stopio gwasanaethau.**

**Ein hymateb:** Fe ddylai trefniadau rhwng **Comisiynwyr** a darparwyr gwasanaeth fod mewn cynlluniau a chontractau lleol.

# Beth i'w wneud os ydy gwasanaeth yn cau




### Cwestiwn 4

Fe wnaethon ni ofyn oedd pobl yn cytuno â'r camau a'r cynlluniau a ddylai fod ar waith ar gyfer cau'n ddiogel.




## Beth oedd pobl yn ei hoffi am yr adran yma:

✓ Mae'n dilyn y gyfraith.




✓ Mae camau clir ar gyfer cau gwasanaethau.

✓ Mae'n cynnwys rolau clir, cyfathrebu da, a gwaith tîm.




✓ Mae'n helpu **Comisiynwyr** i weithredu'n gyflym ac amddiffyn hawliau pobl.

✓ Mae'n canolbwyntio ar leihau problemau a chadw gofal i fynd.



✓ Mae'r pecyn cymorth i gefnogi cau gwasanaethau yn ddefnyddiol.

## Fe wnaeth pobl ddweud:



- **Mae siart llif i ddangos y camau i'w dilyn yn y broses o gau. Fe wnaeth pobl ddweud bod y siart llif yn dangos rolau a dyletswyddau'n glir.**




- **Roedd pobl eisiau gwella'r adran Gwersi a Ddysgwyd yn y siart llif. Cynnwys barn gan y darparwr gwasanaeth sy'n cau.**

**Ein hymateb:** Fe wnaethon ni ddiweddaru'r **adran Gwersi a Ddysgwyd** i gynnwys adborth y darparwr gwasanaeth presennol.



- **Fe wnaeth pobl ddweud hefyd y dylai'r siart llif gynnwys siarad â phobl a gofalwyr ac eiriolaeth.**

**Ein hymateb:** Dim ond crynodeb o beth sydd angen ei wneud rhag ofn cau ydy'r siart llif.




Mae manylion pwysig eraill yn y Cod drafft. Dydyn ni ddim eisiau ei ailadrodd yn y siart llif.




- **Fe wnaeth 1 ymateb ddweud nad ydy Comisiynwyr yn gallu cau gwasanaethau. Roedden nhw eisiau gwneud hyn yn gliriach yn y Cod drafft.**




**Ein hymateb:** Mae'r Cod drafft yn ganllaw i **Gomisiynwyr** i'w helpu i ddelio â chau Mae'n dweud pan allai gwasanaeth gau, dydy e ddim yn rhoi'r pŵer i **Gomisiynwyr** gau gwasanaethau.



Rydyn ni wedi diweddaru'r Cod drafft i wneud hyn yn gliriach.

## Adborth arall:



- **Gwneud yn siŵr bod pobl yn gweithio gyda'i gilydd.**

  **Ein hymateb:** Mae'r Cod yn dangos sut  y dylai **Comisiynwyr** reoli cau gwasanaethau. Mae'r siart llif yn esbonio pwy sy'n gyfrifol am beth.



- **Cael offer ar gyfer gwiriadau ariannol.**

  **Ein hymateb:** Mae gan **gomisiynwyr** ffyrdd o edrych os ydy darparwyr yn gallu rhedeg gwasanaethau cyn ac yn ystod contractau yn barod.



- **Effaith cau gwasanaeth ar ofalwyr di-dâl.**

  **Ein hymateb:** Rydyn ni wedi diweddaru'r Cod drafft i ddangos bod rhaid i awdurdodau lleol ddilyn y gyfraith wrth gau gwasanaethau.

# Yr iaith Gymraeg




## Cwestiynau 5 a 6

Fe wnaethon ni ofyn pa effaith mae'r cod yn gallu ei gael ar yr iaith Gymraeg.

## Fe wnaeth pobl ddweud:




- **Roedd gan bobl farn gymysg am sut mae'r Cod drafft yn effeithio ar yr iaith Gymraeg.**



- **Roedd rhai yn meddwl bod y Cod drafft yn rhoi cyfle i ddefnyddio mwy o Gymraeg. Roedd eraill yn poeni nad oedd yn cefnogi'r iaith Gymraeg yn amlwg.**



- **Roedd y rhan fwyaf o bobl yn hapus na fyddai'r Gymraeg yn cael ei heffeithio'n wael.**




- **Roedd pobl eisiau i'r Cod drafft sôn am gynlluniau fel Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Mwy na Geiriau yn Unig.**




**Ein hymateb:** Fe ddylid defnyddio'r Cod drafft gyda'r Fframwaith Cenedlaethol. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn dweud bod gan bobl yr hawl i gael gwasanaethau gofal a chymorth yn Gymraeg.




- **Fe wnaeth rhai pobl ddweud y dylai Comisiynwyr edrych ar sut mae darparwyr yn defnyddio'r Gymraeg.**



**Ein hymateb:** Dydy hyn ddim yn rhan o'r Cod drafft.

## Unrhyw beth arall



Fe wnaethon ni ofyn i bobl a oes unrhyw beth arall roedden nhw eisiau ei ddweud am y Cod drafft.

### Beth oedd pobl yn ei hoffi am y Cod drafft:



✓ Mae'n glir, yn fyr, ac roedd ganddo siartiau llif defnyddiol.



✓ Roedd yn cwmpasu'r holl wasanaethau gofal a chymorth rheoledig.



✓ Mae'n canolbwyntio ar waith tîm, dysgu, canllawiau clir, a siartiau llif.

## Fe wnaeth pobl ddweud:




- **Roedd rhai eisiau i'r Cod drafft gysylltu â hawliau pobl anabl o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig.**




**Ein hymateb:** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r Fframwaith Cenedlaethol yn cwmpasu hawliau a chydraddoldeb yn barod.



- **Dywedodd rhai y dylai'r Cod drafft hefyd gefnogi pob gwasanaeth a gomisiynir. Fel Taliadau Uniongyrchol a gwasanaethau bach iawn.**




**Ein hymateb:** Mae'r Cod drafft ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth rheoledig. Ond mae hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio fel arfer da ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth sydd ddim wedi'u rheoleiddio.



**Fe wnaeth rhai ddweud nad ydy gwasanaethau plant wedi'u cwmpasu'n llawn. Dydy'r Cod drafft  ddim yn cynnwys adran ar wahân ar gyfer hyn.**



**Ein hymateb:** Rydyn ni'n cytuno bod gwasanaethau plant yn bwysig. Mae'r Cod drafft yn cwmpasu'r holl wasanaethau i oedolion a phlant.




**Fe wnaeth  rhai awgrymu ychwanegu rheolau o'r Fframwaith Cenedlaethol at gontractau.**



**Ein hymateb:** Mae gan y Fframwaith Cenedlaethol wiriadau ar waith yn barod. Dydy'r Cod draft ddim wedi cael ei newid.



- **Roedd pobl eisiau i'r Cod drafft fod yn gliriach i wybod pwy fyddai'n gyfrifol:**
  - **delio â phryderon am wasanaeth**
  - **neu os oes rhaid i wasanaeth gau.**



**Pan nad ydy'r awdurdod lleol yn yr ardal yn defnyddio'r gwasanaeth. Neu dydy e ddim yn cytuno ag awdurdodau eraill sy'n gwneud hynny.**



**Ein hymateb:** Rhaid i **gomisiynwyr** fonitro contractau a delio â phryderon. Mae'r Cod drafft yn eu helpu i weithio gyda'i gilydd, bod yn hyblyg, a gwneud y penderfyniad cywir.




Mae'r siartiau llif yn dangos:

- Pryd y dylai asiantaethau siarad gyda'i gilydd am ansawdd a phryderon.
- Yr angen i sefydlu tîm i weithredu ar broblemau.

- **Un awgrym oedd i Gomisiynwyr weithio gyda Llais. Felly, mae adborth pobl yn cael ei ddefnyddio mewn penderfyniadau.**




**Ein hymateb:** Mae'r  gyfraith yn barod yn dweud bod rhaid i **Gomisiynwyr** wrando ar farn pobl o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2020.

# Beth sy'n digwydd nesaf



Fe fydd y Cod drafft yn cael ei ddangos i'r Senedd ym mis Rhagfyr 2025.




Os bydd y Senedd yn cytuno, fe fydd y Cod drafft yn dechrau ar 28 Chwefror 2026.



Fe fydd yr holl ddogfennau drafft ar wefan y Senedd: senedd.cymru/busnes-y-senedd/deddfwriaeth/is-ddeddfwriaeth

# Mwy o wybodaeth




Os ydych chi angen yr ymgynghoriad yma mewn fformat, iaith wahanol neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni:



**Ysgrifennwch at:** Tîm y Cartref Gofal
Yr Is-adran Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



**Ebost:** TimCartrefiGofal@llyw.cymru




Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg: www.llyw.cymru/cod-ymarfer-ar-ansawdd-pryderon-chau-gwasanaethau-gofal-chymorth